# Llais Llanilar

Tymor yr Haf 2025 Summer Term

Gwneud ein gorau sydd orau bob tro

## Eisteddfod yr Urdd

**Pob lwc i gôr yr ysgol yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr wythnos nesaf. Rydym yn falch iawn ohonoch chi. Mwynhewch y profiad arbennig!**

***Good luck to the school choir in the Urdd Eisteddfod next week. We're very proud of you.***

Urdd



Fe fydd Estyn yn arolygu'r ysgol rhwng Mehefin 9fed a'r 11eg. Fe fydd cyfle i chi ddod i'r neuadd dydd Llun y 9fed am 3.45 i rannu eich barn am yr ysgol. Bydd aelodau o staff ar gael i ofalu am eich plant. Cofiwch hefyd i lenwi'r holiadur a anfonwyd atoch chi cyn Mai 25ain. Diolch am bob cefnogaeth.

Estyn

*Estyn will be inspecting the school between June 9th and 11th. You're welcome to come to a meeting to share your views about the school on Monday the 9th at 3.45. Members of staff will be in school to look after your children. Please remember to fill in the questionnaire before May 25th. Thank you for your support.*

Cofiwch ddilyn **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar** ar ein tudalen **Facebook.** Hefyd, mae **gwefan** yr ysgol (llanilar.ceredigion.sch.uk) yn cael ei diweddaru yn gyson gyda'r newyddion mwyaf cyfredol.

*Please remember to follow our Facebook page.* Also, our school website (llanilar.ceredigion.sch.uk) is regularly updated.

# Gwersyll yr Urdd Glanllyn

Ar ddechrau'r tymor, fe aeth disgyblion Glyndŵr i wersyll yr Urdd Glanllyn am dridiau. Cafwyd amser arbennig yn y tywydd braf a chael cyfle i ganŵio, padlfyrddio, dringo wal a chwblhau cwrs rhaffau uchel. Fe fu amser am sesiwn nofio, cyfeiriannu, adeiladu rhafft, saethyddiaeth, chwaraeon a sesiwn gwylltgrefft a bwyta malws melys wedi rhostio yn ogystal.

*At the beginning of term, Glyndŵr class visited Glanllyn for three days. They had a fantastic time in beautiful weather completing activities on the lake- canoeing and paddleboarding. They were also very brave on the high ropes and climbing wall. They also enjoyed swimming, orienteering, archery, sports, raft building and a fire building session where they were able to roast their own marshmallows to enjoy.*















# Dosbarth Gwenllian

Mae Dosbarth Gwenllïan wedi cael wythnosau hudolus!

Maen nhw wedi mwynhau darllen Moddion Rhyfeddol George yn fawr, ac wedi cael eu hysbrydoli i greu eu moddion dychmygus eu hunain - gan ddyfeisio pob math o effeithiau gwyllt a rhyfeddol. Maen nhw hefyd wedi ysgrifennu ryseitiau anhygoel ac ysgrifennu adroddiad newyddion gwych yn adrodd am ddigwyddiadau cyffrous George!

Yn y gwersi rhifedd, mae'r dosbarth wedi bod yn dysgu am fesur cynhwysedd, ac maen nhw wedi bod yn wyddonwyr brwd - yn arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau ac yn datblygu eu sgiliau ymarferol drwy waith ymchwil.

Fel rhan o'u gwaith thema, aeth y plant ar daith hwyliog ac addysgiadol i'r llyfrgell i ddysgu am enwau lleoedd. Nawr, maen nhw'n edrych ymlaen at ddechrau ar eu prosiect nesaf, sydd yn mynd i fod yn arbennig iawn - pob dim am eu hunaniaeth eu hunain!








Dosbarth Gwenllian have had a magical few weeks! They've thoroughly enjoyed reading *George's Marvellous Medicine* and have been inspired to create their own imaginative potions, dreaming up all sorts of wild and wonderful effects their medicines might have. They also wrote some amazing recipes and a fantastic news report covering the dramatic events from George's adventure!

In numeracy, the class has been learning about measuring capacity, and they've been keen scientists—experimenting with different materials and developing their practical skills through hands-on investigations.

As part of their topic work, the children also went on a fun and educational trip to the library to learn about place names. Now, they're excited to begin their next project, which will explore something very special—their own identity!

# Dosbarth Criw Cyw

Mae Criw Cyw wedi bod yn brysur yn dysgu am ddeunyddiau yn ystod yr hanner tymor diwethaf. Buom yn arbrofi gyda deunyddiau sy'n suddo ac arnofio, ac yn disgrifio deunyddiau. Buodd Criw Cyw Mrs Jones yn edrych ar ba fath o dŷ rydym yn byw ynddo. Crewyd pictogram i ddangos ein canfyddiadau.

*Criw Cyw have been busy learning about materials during the last half term. We experimented with materials that float and sink, and described different materials. Mrs Jones' class looked at what kind of houses we live in. A pictogram was created to illustrate our findings.*












Wrth edrych ar bethau byw yn ystod yr hanner tymor buom allan yn yr ardd yn edrych am greaduriaid bach. Cawsom hwyl yn archwilio a darganfod! Buom yn enwi creaduriaid bach, meddwl ble maent yn byw, cyfri coesau, a meddwl sut maent yn symud. *Whilst looking at living things during this half term we went out to the garden looking for little creatures. We had fun exploring and discovering! We named them, thought about where they live, counted their legs, and thought about how they move.*









**Calon**

Croeso i Calon, ein anifail anwes newydd.
Welcome Calon, our new little fish.

# Newyddion o'r Ystafell Athrawon
# News from the Staff Room

Llongyfarchiadau mawr i Mr Roberts ar ei swydd newydd. Fe fydd yn dechrau ar ei  secondiand fel pennaeth Ysgol Tal y Bont a Chraig yr Wylfa ym mis Medi. Byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr ond yn falch iawn o'i lwyddiant.

*Congratulations to Mr Roberts who will be starting his secondment as headteacher of  Ysgol Tal y Bont a Chraig yr Wylfa in September. We will all miss him but are very proud of his success.*



# Dyddiadau Pwysig Tymor y Gwanwyn 2025

# Easter Term 2025 Important Dates

Dyma rai dyddiadau i'ch dyddiaduron. Fe wnewn ein gorau glas i gadw at y dyddiadau yma ond ymddiheuriadau os fydd rhai manylion yn newid. Cofiwch ddilyn yr ysgol ar Facebook **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar** am newyddion o'r dosbarthiadau. Mae gwefan yr ysgol yn cael ei diweddaru yn gyson **https://www.llanilar.ceredigion.sch.uk**.

Os hoffech chi drafodaeth am unrhyw agwedd o fywyd yr ysgol neu am gynnydd eich plentyn, mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

*Here are some initial dates for the term. We shall try to ensure that these dates are kept but there might be some inevitable changes to the dates printed below. Please follow the school on Facebook **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar** for news from the classes. Please remember that the school website is updated regularly **https://www.llanilar.ceredigion.sch.uk**.*

*If you would like to discuss any aspect of school life or your child's progress, please feel free to contact us.*

| Digwyddiad | Dyddiad Date | Event |
|---|---|---|
| **Ymweliad Estyn**<br>**Cyfarfod rhieni am 3.45 yn y neuadd 9/6** | **09/06/25 -**<br>**11/06/25** | **Estyn Visit**<br>**Parents' Meeting in the hall 3.45 9/6** |
| **Mabolgampau**<br>**Cychwyn am 1.30 y pnawn** | **19/06/25** | **Sports Day**<br>**1.30pm start** |
| Blwyddyn 6— Ymarfer côr Proms Cynradd | 17/06/25 | Year 6—Primary Proms Choir practice |
| Criw Cyw—Ymweliad â Quakers | 18/06/25 | Criw Cyw trip to Quackers |
| **Gêm Pêldroed Tîm yr Ysgol yn herio Clwb Pêldroed Llanilar**<br>**Manylion i ddilyn** | **26/06/25** | **Football Match—School team v Llanilar FC**<br>**Details to follow** |
| HMS—Dim ysgol i'r dysgwyr | **27/06/25** | **INSET—No school for the children** |
| Pontio Blwyddyn 6 | 30/06/25<br>01/07/25 | Year 6 Transition |
| Proms Gwasanaeth Cerdd—Côr Blwyddyn 6 | 02/07/25 | Year 6 choir will be performing in the Music Service Proms |
| Pontio blwyddyn 6 i Ysgol Henry Richard | 03/07/25 | Year 6 transition day to Ysgol Henry Richard |
| **Perfformiad Blwyddyn 3—6**<br>**Y Llew Frenin** | **10/07/25** | **Years 3—6 will perform The Lion King** |
| **Diwrnod olaf y flwyddyn** | **18/07/25** | **Last day of the year** |

**Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth.**

**A big thank you to everyone for your support.**